OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 68 (Cy. 18)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A449 (Man i'r gorllewin o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan hyd at ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *29 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A40/A449, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A449 (Man i'r gorllewin o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan hyd at ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2024.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 29 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd/cefnffyrdd" ("*the trunk road(s)*") yw cefnffordd yr A40/A449 Casnewydd i Gaerwrangon a chefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 5 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3, 5 a 6 i’r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6 i’r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6 i’r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

### Cymhwyso

**8.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal dros dro

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2, 3, 4, 5 a 6 i’r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

### Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Ionawr 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwahardd cerbydau dros dro

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Penpergwm.

Y darn o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Hardwick Lane.

Y darn o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 470 o fetrau i'r dwyrain o danffordd wasanaethu Dobson's Farm.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder o 50 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at bwynt 105 o fetrau i'r de-orllewin o borth deheuol Twnelau Gibraltar.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 271 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dixton hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder o 40 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy’n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i’r gorllewin o’i chyffordd â’r ffordd fynediad sy’n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 134 o fetrau i’r gorllewin o’i chyffordd â Red Barn Road.

## ATODLEN 4
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 sy’n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i’r gorllewin o'i chyffordd â’r ffordd fynediad sy’n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 135 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

## ATODLEN 5
## Terfyn cyflymder 50 mya, neu 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A40 sy’n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn o ffordd ymadael tua'r de yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

**ATODLEN 6**
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.